Grŵp Trawsbleidiol Cymru Ryngwladol

Dydd Mawrth 26 Mehefin 2018
12:00pm tan 13:20pm

Yn bresennol:
Rhun ap Iorwerth AC (Cadeirydd)
Dai Lloyd AC

Heledd Roberts - swyddfa Rhun ap Iorwerth AC
Sara Moran - swyddfa Lynne Neagle AC
Ioan Bellin - swyddfa Simon Thomas AC
Martha Rolley - swyddfa Kirsty Williams AC
Robin Wilkinson - Uwch Swyddog Ymchwil

Laurence Conway - Cadeirydd, Chwaraeon Cymru
Andy Eagle - Cyfarwyddwr, Canolfan Celfyddydau Chapter
Susie Ventris-Field - Prif Weithredwr Dros Dro, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Pedr ap Llwyd - Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Yr Athro Claire Gorrara - Athro Astudiaethau Ffrengig, Prifysgol Caerdydd
Rhiannon Wyn Hughes – Cyfarwyddwr, Gŵyl Ffilmiau Ieuenctid Wicked Wales
Olivia Harvey – Portland Communications

Jenny Scott – Cyfarwyddwr, British Council Cymru
Dr Christopher Lewis – Pennaeth Addysg, British Council Cymru
Alison Cummins – Rheolwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol, British Council Cymru
Lyndsey Halliday – Swyddog Cymorth Prosiect, British Council Cymru

Ymddiheuriadau:
Simon Thomas AC
Llyr Gruffydd AC
Yr Athro Laura McAllister – Athro Polisi Cyhoeddus, Prifysgol Caerdydd

1. Croeso gan y Cadeirydd a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a chrybwyll ei fod wedi bod i symposiwm yn ddiweddar i lansio Baromedr Cymell Tawel Cymru 2018, a bod rhai o'r bobl sy'n bresennol heddiw yn y lansiad hwnnw. Dywedodd fod manylion yr adroddiad mor ddiddorol ei fod yn awyddus i fynd â'r canfyddiadau at gynulleidfa eang.

Nododd, gan mai dechrau'r cyfarfod ydoedd, ac nad oedd digon o Aelodau Cynulliad yn bresennol ar gyfer pleidlais â chworwm, y byddai'n gohirio'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol tan ddiwedd y cyfarfod.

2. Cyflwyniad o ymchwil Cymell Tawel Cymru gan Olivia Harvey, Portland Communications

Gwnaeth Olivia Harvey gyflwyniad o dan y pwnc 'Baromedr Cymell Tawel Cymru 2018':

Cefndir
Mae grym cymell tawel yn defnyddio atyniad a pherswâd i newid meddyliau ac i ddylanwadu ar ymddygiad. Caiff grym cymell tawel ei greu a'i ddefnyddio drwy ddiwylliant, diplomyddiaeth gyhoeddus, a chyfraniad cadarnhaol byd-eang.

Mae tri thuedd mawr byd-eang yn gweithredu fel grymoedd gwaelodol sy'n peri rhagor o gymhlethdod mewn materion tramor: y cyntaf o'r rhain yw ansicrwydd geowleidyddol, sy'n deillio i raddau helaeth o ddau etholiad ysgytwol yn 2016 a gynhaliwyd ym Mhrydain ac yn Unol Daleithiau America; yr ail yw'r chwyldro digidol sy'n datblygu'n gyflym; a'r trydydd yw ymlediad grym.

Mae swyddogaeth llywodraethau rhanbarthol ym maes materion byd-eang yn newid. Mae gan lywodraethau datganoledig fwy o adnoddau i'w defnyddio i ddylanwadu ar ddigwyddiadau byd-eang, gyda mwy o allu a chapasiti, rhyngddibyniaeth a mentrau newydd, ac er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â chynulleidfaoedd rhyngwladol rhaid iddynt ffocysu eu hasedau cymell tawel unigryw megis diwylliant, addysg, masnach, yr amgylchedd a chwaraeon.

Roedd yr adroddiad hwn yn defnyddio data gwrthrychol a goddrychol ar gyfer deg gwlad a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth, gyda data arolwg ar ganfyddiadau rhyngwladol.

Canlyniadau'r adroddiad

1. Mae Québec yn perfformio'n dda ar draws y mesuryddion gwrthrychol a goddrychol.
2. Cafodd yr Alban sgôr well ym maes addysg a digidol, ac mae wedi sefydlu ei hunaniaeth ei hun â chynulleidfaoedd rhyngwladol.
3. Daeth Cymru yn y chweched safle yn y canlyniadau cyffredinol, a hi oedd gryfaf o ran cyswllt digidol, ond ni wnaeth gystal ym maes diplomyddiaeth ddigidol lle nad oes ganddi gymaint o bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol ganddi.
4. Ym maes mentergarwch roedd perfformiad gorau ond un Cymru, ond ni wnaeth gystal ym maes ymchwil a datblygiad.
5. Ni wnaeth Cymru'n dda ym maes addysg.
6. Chwaraeon yw'r nodwedd orau sydd gan Gymru.
7. O ran ymgysylltu, mae Cymru'n perfformio'n dda ym maes cyrhaeddiad rhyngwladol, ond nid oes ganddi gonsyliaethau cyffredinol gan lywodraethau tramor.
8. Yng nghanlyniadau'r arolwg, mae Cymru'n gwneud yn dda ym maes chwaraeon, ond cafodd sgoriau gwael ar gyfer bwyd, cyfeillgarwch a nwyddau moethus. Mae diffyg tuedd clir yn yr arolwg yn arwydd o ddealltwriaeth dameidiog o Gymru y tu allan i fyd chwaraeon.

Argymhellion:

1. Dylai Cymru dargedu nifer fach o brifysgolion sy'n agos at fod yn y 200 gorau, a gwthio'r sefydliadau hynny i'r 200 gorau.
2. Mae angen ymgyrch bwrpasol ar Gymru i ddenu mwy o fyfyrwyr rhyngwladol – dylid ehangu'r rhaglen Cymru Fyd-eang.
3. Adolygu'r rhwydwaith presennol o bresenoldeb tramor, a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau.
4. Dylai Cymru gymryd rhan mewn paraddiplomyddiaeth gyda chyfres o wledydd blaenoriaeth, a'u hannog i agor consyliaethau cyffredinol.
5. Dylai Cymru annog ei dinasoedd i dyfu eu rhwydweithiau rhyngwladol eu hunain drwy bartneriaethau.
6. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda threfnwyr gwyliau i gynnal mwy o wyliau i ddenu cynulleidfaoedd rhyngwladol.
7. Gellid gwneud mwy i hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i Gymru, i ennyn diddordeb a'i gosod ar wahân i weddill gwledydd Prydain.

Gweler y cyflwyniad atodol. (Saesneg yn unig)

3. Trafodaeth

Gwnaed y sylwadau canlynol:

Holodd Rhiannon Wyn Hughes a yw ymgysylltiad Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddigon strategol, gan nad yw'n cael llawer o effaith. Dywedodd Olivia Harvey ei bod yn hawdd iawn bod yn ynysig wrth weithredu, heb gadw trosolwg clir o strategaeth y llywodraeth, ac awgrymodd bod angen dull cydlynol â llwybrau cyfathrebu clir. Dywedodd ei bod hefyd yn hawdd ymgolli mewn defnydd ad-hoc o'r cyfryngau cymdeithasol, a bod sgìl mewn llunio naratif a meddwl mwy ymlaen llaw.

Cytunodd Laurence Conway fod gan Gymru rai chwaraeon sydd wedi'u hen sefydlu, ond y cânt eu clymu â Thîm Prydain Fawr ar adegau. Awgrymodd fod angen i Gymru ddatblygu proffil rhyngwladol gyda chysylltiadau rhyngranbarthol gwell gydag Ewrop ar ôl Brecsit. Adroddodd Jenny Scott nad y chwaraeon sy'n bwysig yn aml, ond yr hyn y gallwch ei wneud o gwmpas y chwaraeon ac y dylid eu defnyddio i hyrwyddo Cymru ymhellach.

Nododd yr Athro Claire Gorrara nad oes cydweithrediad rhwng sefydliadau addysgol yng Nghymru, ac awgrymodd fod angen cysylltu â sefydliadau addysg uwch eraill yn Ewrop i gyflawni rhai partneriaethau strategol. Cytunodd Olivia Harvey fod angen targed i adeiladu enw da Cymru fel lleoliad o ddewis i fyfyrwyr.

Nododd Andy Eagle fod Québec yn dda iawn o ran darparu llwyfannau i wledydd eraill arddangos eu diwylliant, a dywedodd y dylai fod cyfle i Gymru ddefnyddio gwyliau o amgylch y byd fel llwyfan ar gyfer arddangos yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig.

Dywedodd Jenny Scott fod cyfle i ddefnyddio hyrwyddwyr ac i ddewis gwyliau rhyngwladol lle gallwn fynd ag artistiaid o Gymru i gael rhagor o effaith. Awgrymwyd creu cynllun pum mlynedd o wyliau fel cyfle arddangos.

Croesawodd Pedr ap Llwyd yr argymhelliad ynglŷn â'r Gymraeg, a dywedodd fod gennym gefnogaeth drawsbleidiol yng Nghymru i hyrwyddo'r iaith, sy'n annhebyg i Ogledd Iwerddon â'u hiaith nhw, ac y dylem ddathlu'r iaith yn hytrach na theimlo cywilydd ohoni.

Dywedodd yr Athro Gorrara fod achos cryf dros edrych ar ranbarthau dwyieithog eraill, ac adeiladu dull strategol i werthfawrogi ein tirlun diwylliannol cyfoethog.

Dywedodd Susie Ventris-Field ein bod yn dathlu'n diwylliant yn dda yng Nghymru, ond nid ydym yn adlewyrchu'r neges honno yn allanol, ac y gallai hyn gynorthwyo wrth ddod yn wlad fwy croesawgar a chyfeillgar.

Awgrymodd Laurence Conway faes posibl lle mae Cymru wedi arwain, sef edrych ar weithgaredd chwaraeon yn ystod y diwrnod ysgol, ac y gellir cysylltu hyn â llysgenhadon ifanc.

4. Casgliadau'r Cadeirydd a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Diolchodd Rhun ap Iorwerth i Olivia Harvey am ei chyflwyniad ac i'r grŵp am eu mewnbwn. Awgrymodd y gellid datblygu ar rai o'r materion a godwyd mewn cyfarfodydd pellach.

Ethol Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod

Etholwyd Rhun ap Iorwerth AC yn briodol yn Gadeirydd, ar ôl cael enwebiad gan Dai Lloyd AC.

Ysgrifenyddiaeth
Etholwyd y British Council fel ysgrifenyddiaeth ar ôl i'r Cadeirydd eu cynnig, gan ddiolch iddynt am eu gwaith.

Bydd dyddiadau'r cyfarfodydd yn cael eu hanfon at y grŵp ar ôl eu trefnu.